**Eluned Morgan AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**Minister for International Relations and the Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-952
Ein cyf/Our ref EM/00207/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru

17 Mehefin 2020

Annwyl Janet,

Diolch ichi am ohebu â'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch yr alwad ar y Pwyllgor Deisebau i ddychwelyd at ddefnyddio sillafiadau Cymraeg o enwau lleoedd. Rwy'n ymateb i'r mater hwn, gan ei fod yn dod o dan gylch gorchwyl fy mhortffolio i. Rwy'n ymddiheuro am beidio ag ymateb yn gynt.

Comisiynydd y Gymraeg sy'n gyfrifol am roi cyngor i unigolion a sefydliadau am ffurfiau safonol enwau lleoedd yng Nghymru. Mae Rhestr y Comisiynydd o *Enwau Lleoedd Safonol Cymru* yn adnodd ar-lein defnyddiol, y gellir ei chwilio neu y gellir ei lawrlwytho, i ddod o hyd i enwau safonol pentrefi, trefi a dinasoedd yng Nghymru. I weld y rhestr, ewch i: www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Comisiynydd/EnwauLleoedd/Pages/Lawrlwytho.aspx

Fodd bynnag, rôl y Comisiynydd yw awgrymu ffurfiau a sillafiadau enwau lleoedd, yn hytrach na'u gorfodi.

Rwy'n ymwybodol bod diogelu enwau lleoedd wedi'i ystyried gan y Bwyllgor Deisebau o'r blaen. Er enghraifft, cafodd "P-05-819 Enwau Lleoedd Cymru – Bil Diogelu a Hyrwyddo" ei ystyried gan y Pwyllgor yn 2018. Mae'r ddolen gyswllt isod i drafodion y Pwyllgor yn cynnwys yr ymateb a anfonwyd i'r Pwyllgor gan y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon, sy'n amlinellu'r gofynion yn Neddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. https://busnes.senedd.cymru/ieIssueDetails.aspx?IId=21901&PlanId=0&Opt=3.

O ran yr ymdrechion ar lefel Llywodraeth Leol, Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn rhoi dyletswydd ar Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn) i gadw golwg ar drefniadau llywodraeth leol. Gallai'r newidiadau a gynigir gynnwys newid enwau unedau gweinyddol Cymru. Ond, ni fyddai'r newidiadau a gynigir i enwau'r unedau hynny yn effeithio ar enw tref, pentref neu ddinas yn yr unedau gweinyddol hynny.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fel rhan o broses adolygu'r Comisiwn, byddwn yn ceisio barn Comisiynydd y Gymraeg am enwau arfaethedig yr unedau gweinyddol. Os na fydd y Comisiwn a'r Comisiynydd yn cytuno ar un neu fwy nag un o'r enwau arfaethedig, cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru yw gwneud penderfyniad ar yr enw.

Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 hefyd yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio a chadw rhestr o enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru. Caiff y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru ei chynnal ar ein rhan gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Bellach, mae'n cynnwys bron 700,000 o gofnodion, ond mae'n adnodd deinamig, a bydd y rhestr yn parhau i dyfu. Mae'r adnodd yn un gwerthfawr ar gyfer olrhain y gwahanol ffurfiau ar enwau anheddiadau yng Nghymru, gan ei fod yn ceisio cofnodi enwau lleoedd hanesyddol y gellir pennu'n hyderus iddynt gael eu hadeiladau yn y lleoliad cyn 1919. I weld y rhestr, ewch i:
https://enwaulleoeddhanesyddol.cbhc.gov.uk/

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i chi a'r Pwyllgor wrth ichi ystyried y Deiseb.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Minister for International Relations and the Welsh Language